

Estyn

*Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all*

# Adroddiad Blynyddol 2009-2010

## ADRAN 4 **Gwella addysg a hyfforddiant**

Crynodebau o arolygon cylch gwaith Estyn 2009-2010

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Iechyd ar Waith – Health at Work

# Adran 4 – Gwella addysg a hyfforddiant: Crynodebau o arolygon cylch gwaith Estyn 2009-2010


Hyfforddiant y Cyfnod Sylfaen a'i effaith ar ddysgu ac addysgu 2

Arfarniad o effaith cynlluniau a grant pontio ar bartneriaethau ysgolion cynradd ac uwchradd yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 3

Arfarniad o'r trefniadau i sicrhau cysondeb asesiadau athrawon yn y pynciau craidd yng nghyfnodau allweddol 2 a 3 4

Gwella rhifedd yng nghyfnodau allweddol 2 a 3 5

Arloesi yng nghyfnod allweddol 3 6

Llwybrau Dysgu 14-19 – Dewis ehangach a'r craidd dysgu: cynnydd wrth roi dewis opsiynau ehangach a'r craidd dysgu ar gyfer dysgwyr 14-19 oed ar waith 7

Mynd i'r afael â thlodi ymhlith plant ac anfantais mewn ysgolion 8

Sicrhau bod pob dysgwr yn gwireddu ei botensial – arfarniad o strategaethau awdurdodau lleol 9

Rheolwyr busnes ysgolion – canllaw arfer orau 10

Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP) 11

Sut mae athrawon yn arfarnu effaith prosiectau datblygiad proffesiynol parhaus CyngACC 12

Colegau addysg bellach ac ennyn diddordeb cyflogwyr 13

Ansawdd adeiladau newydd mewn colegau addysg bellach, a'u heffaith ar ddysgwyr 14

Beth sy'n gwneud darparwr hyfforddiant da? 15

Ansawdd a pherthnasedd hyfforddiant staff i gyflwyno medrau sylfaenol a Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill 16

Addysg a hyfforddiant mewn gwaith ieuenctid a chymunedol 17


## Cyflwyniad

Bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Estyn yn cytuno ar raglen o faterion ym myd addysg a hyfforddiant i gael sylw manwl. Rydyn ni'n gwneud gwaith arolwg ar y materion yma, yn ychwanegol at ein gwaith arolygu. Byddwn ni'n cyflwyno'n canfyddiadau a'n cyngor mewn adroddiadau sy'n mynd yn uniongyrchol at y gweinidogion, ac rydyn ni'n gwneud argymhellion i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r adroddiadau hefyd yn cynnwys argymhellion i ddarparwyr ac awdurdodau lleol.

Yn yr adroddiadau llawn, fe welwch chi hefyd enghreifftiau o arfer dda ac arfer ragorol, yn ogystal ag argymhellion ynglŷn â gwella. Mae hyn yn helpu'r arweinwyr, y rheolwyr a'r ymarferwyr i wella'u gwaith.

## Hyfforddiant y Cyfnod Sylfaen a'i effaith ar ddysgu ac addysgu[1]

Cynhaliodd Estyn arolwg o'r holl awdurdodau lleol ac aeth i ymweld â 15 o ysgolion a lleoliadau[2] i ganfod pa mor dda roedd y rhaglen hyfforddiant genedlaethol ar gyfer staff y Cyfnod Sylfaen yn cael ei rhoi ar waith ar draws Cymru. Fe wnaethon ni hefyd arfarnu pa mor dda roedd yr hyfforddiant yn dylanwadu ar ddysgu ac addysgu.

Nid oes digon o wybodaeth glir am bwy yn union sydd wedi cael hyfforddiant. Mae awdurdodau lleol yn sôn bod y mwyafrif o'r staff sy'n gweithio gyda phlant dan bump oed wedi cael rhywfaint o hyfforddiant. Er hynny, mae llai o staff sy'n gweithio gyda phlant hŷn wedi'u hyfforddi. Nid yw'r awdurdodau lleol wedi mynd ymhellach na'r camau cyntaf yn y gwaith o greu cynlluniau i hyfforddi a chynorthwyo'r gweithwyr yma.

At ei gilydd, mae'r awdurdodau lleol wedi trefnu'r hyfforddiant yma'n dda. Ond mae'r sefyllfa lle mae ymarferwyr unigol yn dilyn hyfforddiant yn gallu tarfu ar y drefn. Nid yw'n gost-effeithiol chwaith gan fod yr hyfforddiant yn golygu mynd ag ymarferwyr unigol allan o'r ysgolion. Mae'r mwyafrif o'r awdurdodau lleol yn cynnig sesiynau hyfforddi ychwanegol i staff sy'n gweithio mewn lleoliadau na chynhelir. Er hynny, mae'r grŵp yma o staff yn dal i'w chael hi'n anodd manteisio ar hyfforddiant.

Yn yr arfer orau, mae awdurdodau lleol:

- yn defnyddio gwybodaeth am ysgolion a lleoliadau'n dda i dargedu hyfforddiant a chymorth er mwyn diwallu anghenion unigolion;
- yn monitro effaith yr hyfforddiant ar arfer yn yr ystafell ddosbarth;
- yn defnyddio ymarferwyr yn dda i gyflwyno a chynorthwyo'r hyfforddiant (er bod yr ymarferwyr yma at ei gilydd yn dod o ysgolion yn hytrach na lleoliadau);
- yn trefnu hyfforddiant i annog staff y Cyfnod Sylfaen i rwydweithio; ac
- yn darparu hyfforddiant i benaethiaid ac arweinwyr lleoliadau ar y dulliau o arfarnu pa mor effeithiol yw'r ddarpariaeth.

Mae staff y Cyfnod Sylfaen ac awdurdodau lleol yn gadarnhaol iawn ar y cyfan ynglŷn â'r hyfforddiant sydd ar gael. Maen nhw hefyd yn gadarnhaol ynglŷn â'i effaith ar arfer yn yr ystafell ddosbarth a dysgu'r plant. Er hynny, nid oes fawr o arfarnu ffurfiol, os oes unrhyw arfarnu o gwbl, wedi cael ei wneud i asesu effaith yr hyfforddiant ar y safonau y mae plant yn eu cyflawni.

[1] http://www.estyn.gov.uk/download/publication/1255.8/foundation-phase-training/

[2] Mae'r term yma'n cyfeirio at ddarparwyr addysg na chynhelir ar gyfer plant tair oed.

## Arfarniad o effaith cynlluniau a grant pontio ar bartneriaethau ysgolion cynradd ac uwchradd yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3[3]

Yn 2006, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru reoliadau statudol i sicrhau bod awdurdodau lleol a grwpiau o ysgolion yn gweithio gyda'i gilydd i gynllunio ar gyfer plant sy'n symud o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3. Mae awdurdodau lleol yn defnyddio grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynorthwyo yn y gwaith o ddatblygu'r cynlluniau yma.

Mae cynlluniau pontio'n dod yn un o brif nodweddion gwaith y mwyafrif o'r ysgolion uwchradd a'u hysgolion cynradd partner. Un o'r ffactorau allweddol yn y gwelliant yma oedd gweld athrawon yn ymweld ag ysgolion eraill i arsylwi'r addysgu a'r dysgu, ac i gyflwyno gwersi. O ganlyniad i hyn, mae athrawon yr ysgolion uwchradd yn deall yn well galluoedd a chyflawniadau'r disgyblion sy'n cael eu derbyn i'r ysgol uwchradd.

Er hynny, mae ansawdd y trefniadau yma'n amrywio gormod. Nid yw'r cynlluniau'n gwneud digon i sicrhau bod asesiadau'r athrawon yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 yn gyson, yn enwedig o safbwynt llythrennedd, rhifedd a Chymraeg fel ail iaith.

Mae awdurdodau lleol yn cynnig cymorth da i ysgolion. Maen nhw'n chwarae rhan bwysig yn y gwaith o rannu arfer orau ar draws grwpiau o ysgolion. Mae swyddogion arweiniol yn monitro'r cynlluniau pontio'n dda, ac weithiau maen nhw'n defnyddio ymgynghorwyr allanol yn effeithiol i gyfrannu at y broses arfarnu.

Yn y mwyafrif o'r achosion, mae'r awdurdodau lleol a'r grwpiau o ysgolion wedi gwneud yn siwˆr y byddan nhw'n gallu cynnal cynlluniau pontio pan ddaw'r grant i ben. Mae llawer o grwpiau o ysgolion wedi cytuno i rannu adnoddau er mwyn sicrhau bod cynlluniau pontio'n gallu dod yn un o nodweddion parhaol trefniadau partneriaeth.

[3] http://estyn.gov.uk//download/publication/2020.2/transition-plans-and-grant-for-primary-and-sec-schools/

## Arfarniad o'r trefniadau i sicrhau cysondeb asesiadau athrawon yn y pynciau craidd yng nghyfnodau allweddol 2 a 3[4]

Daeth profion statudol ar ddiwedd cyfnodau allweddol i ben yn 2005. Ers hynny, mae'r athrawon eu hunain wedi bod yn asesu'r disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 i ganfod safon eu cyrhaeddiad.

Yn gyffredinol, mae athrawon yn yr ysgolion cynradd a'r ysgolion uwchradd yn gwella'u dealltwriaeth o sut mae disgyblion yn perfformio mewn perthynas â'r safonau cenedlaethol. Ond mae tystiolaeth o arolygiadau Estyn o ysgolion yn dangos mai asesu yw un o'r meysydd gwaith gwannaf.

Nid yw asesiadau athrawon o waith y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn y gwahanol ysgolion yn ddigon cywir nac yn ddigon cyson. Y rheswm am hyn yw nad oes unrhyw system genedlaethol o safoni allanol i wirio cywirdeb a chysondeb asesiadau'r athrawon. Nid yw athrawon uwchradd chwaith yn defnyddio digon ar wybodaeth asesu o'r ysgolion cynradd.

Yng nghyfnod allweddol 1 hefyd, nid oes unrhyw brosesau ar waith i wirio cywirdeb asesiadau'r athrawon. O ganlyniad, nid oes sicrwydd bod mesurau gwerth ychwanegol a mesurau meincnodau'n ddibynadwy yn y gwahanol gyfnodau allweddol. Mae hwn yn ddiffyg pwysig ac mae'n codi cwestiwn ynglŷn â chadernid meincnodau cenedlaethol a data gwerth ychwanegol yn y cyfnod nesaf.

Mae deilliannau asesiadau yng nghyfnod allweddol 3 yn fwy dibynadwy nag yng nghyfnod allweddol 2 am fod proses gadarn ar waith i wirio a safoni'n allanol er mwyn sicrhau bod asesiadau athrawon yn gywir.

[4] http://estyn.gov.uk//download/publication/1201.2/evaluation-of-the-arrangements-for-assessment-in-key-st/

## Gwella rhifedd yng nghyfnodau allweddol 2 a 3[5]

Mae safonau rhifedd yn gadarnach yng nghyfnod allweddol 2 nag yng nghyfnod allweddol 3. Mae llawer o'r diffygion yn safonau rhifedd y disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn digwydd oherwydd nad yw'r disgyblion yn gallu cofio ffeithiau rhif sylfaenol yn hawdd. Ar ben hynny, nid oes ganddyn nhw ddulliau cyfrifo effeithlon.

Nid yw llawer o athrawon yng nghyfnod allweddol 3 yn rhoi digon o bwyslais ar addysgu strategaethau effeithiol ar gyfer cyfrifo yn y meddwl a chyfrifo ysgrifenedig. Nid yw'r athrawon yma'n gwneud yn siŵr bod medrau rhifedd y disgyblion yn parhau i wella pan fyddan nhw'n trosglwyddo o'r ysgol gynradd. Hefyd, nid yw'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 yn cael gymaint o gyfleoedd yn gyffredinol â disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 i ymarfer eu medrau rhifedd y tu allan i'w gwersi mathemateg.

Mae'r mwyafrif o'r ysgolion yn trefnu rhaglenni rhifedd dal i fyny er mwyn helpu'r disgyblion sy'n syrthio ar ei hôl hi. Mae llawer o'r disgyblion yma'n gwella'u medrau ac, yn y rhaglenni mwyaf effeithiol, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud mwy o gynnydd na'r disgwyl. Yn yr ysgolion yma, mae'r athrawon yn gweithio'n dda gyda'i gilydd. Maen nhw'n dewis yn ofalus y disgyblion sydd angen cymorth, ac yn olrhain eu cynnydd yn effeithlon.

Mae cyfraniad uwch-reolwyr ac arweinwyr pwnc yr ysgolion at y mentrau rhifedd mwyaf llwyddiannus, yn bwysig. Mae swyddogion awdurdodau lleol yn cynnig cymorth ac adnoddau da i helpu ysgolion i wella medrau rhifedd y disgyblion, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2. Er hynny, nid yw'r mwyafrif o'r ysgolion a'r awdurdodau lleol yn arfarnu effaith y gwahanol fentrau rhifedd yn ddigon da. Nid ydyn nhw chwaith yn asesu cyfraniad y mentrau yma at y broses o wella cyrhaeddiad ar ddiwedd pob cyfnod allweddol.

[5] http://www.estyn.gov.uk/download/publication/1528.8/improving-numeracy-in-key-stage-2-and-3/

## Arloesi yng nghyfnod allweddol 3[6]

Nid yw arloesi ar ei ben ei hun yn siŵr o arwain at welliannau. Ond mae cyflwyno'r math iawn o gwricwlwm arloesol ac arferion addysgu yng nghyfnod allweddol 3 yn aml yn effeithio'n gadarnhaol drwy ennyn brwdfrydedd y disgyblion a datblygu eu medrau. Mae'r athrawon yn gallu elwa hefyd drwy ychwanegu at eu medrau. Mae rhannu arferion arloesol yn helpu athrawon i chwalu rhwystrau pynciau. Mae arweinwyr allweddol ac athrawon yn dod i deimlo mai eu prosiectau ymchwil weithredu[7] eu hunain ydyn nhw, ac mae hynny'n helpu'r athrawon i fyfyrio ar ddulliau newydd o addysgu.

Mae ysgolion yn fwyaf tebygol o wneud newidiadau arloesol i'r cwricwlwm Blwyddyn 7. Er enghraifft, fe allan nhw grwpio pynciau gyda'i gilydd a'u haddysgu nhw ar y cyd drwy themâu. Mae llawer o ysgolion yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau dysgu a medrau meddwl eu disgyblion. Mae mwy o ysgolion yn cofrestru disgyblion cyfnod allweddol 3 ar gyfer cymwysterau medrau allweddol. Erbyn hyn mae ychydig o ysgolion yn cynnig cyrsiau blasu mewn pynciau galwedigaethol a chyfleoedd i ddisgyblion Blwyddyn 9 ddechrau cyrsiau TGAU yn gynnar.

Yn gyffredinol, nid yw'r ysgolion yn cynnig digon o gyfleoedd i'w dysgwyr ddysgu'n annibynnol, yn enwedig i'r dysgwyr mwy galluog a dawnus. At ei gilydd, prin yw effaith defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu o ran gwella safonau disgyblion.

Un o'r elfennau sy'n rhwystro newidiadau yw dod o hyd i amser i gynllunio ac i feithrin hyder a gallu'r athrawon. Ychydig iawn o ysgolion sydd wedi rhoi gweithdrefnau arfarnu cadarn ar waith i asesu effaith dulliau cwricwlaidd neu ddulliau addysgu newydd ar ddeilliannau'r disgyblion. Nid oes digon o ysgolion yn barod i rannu hyfforddiant ac arfer dda.

[6] http://www.estyn.gov.uk/download/publication/1583.4/innovation-in-key-stage-3/

[7] Prosiectau wedi'u llunio gan athrawon yw'r rhain sy'n datblygu dilyniant o wersi neu dasgau ar strategaeth addysgu neu ddysgu benodol am gyfnod penodol o amser, ac mae arfarnu'n rhan annatod o'r prosiect.

## Llwybrau Dysgu 14-19 – Dewis ehangach a'r craidd dysgu: cynnydd wrth roi dewis opsiynau ehangach a'r craidd dysgu ar gyfer dysgwyr 14-19 oed ar waith[8]

Arfarnodd Estyn y cynnydd mae darparwyr yn ei wneud o ran cynnig dewis ehangach a hyblygrwydd i ddysgwyr 14 i 19 oed drwy'r fenter Llwybrau Dysgu.

Mae'r darparwyr wedi gwneud cynnydd da iawn o ran bodloni gofynion cyfnod allweddol 4 y Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru). Maen nhw'n cynnig mwy o wahanol gyrsiau cyffredinol a galwedigaethol i'r dysgwyr. Mae'r rhan fwyaf o'r cydweithio'n digwydd rhwng ysgolion a cholegau addysg bellach neu ddarparwyr dysgu yn y gwaith sy'n gallu cynnig cyfleusterau arbenigol neu arbenigedd mewn meysydd fel peirianneg neu drin gwallt a therapi harddwch. Mae'r cyrsiau yma'n ddrutach na chyrsiau academaidd traddodiadol, ac mae gofyn i'r dysgwyr deithio rhwng y darparwyr fel arfer. Grantiau sydd wedi ariannu'r ddarpariaeth yma'n bennaf, ac nid cyllid prif ffrwd.

Mae'r mwyafrif o'r ysgolion cyfrwng Cymraeg yn bodloni'r gofynion ar gyfer nifer y cyrsiau yn y Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) yng nghyfnod allweddol 4. Ond, yn rhai o ardaloedd Cymru, nid oes digon o ddarpariaeth o gyrsiau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg sy'n gofyn am gyfleusterau arbenigol, fel cyrsiau sy'n golygu astudio'r tir. Ar ben hynny, mae llawer o ddysgwyr sy'n Gymry Cymraeg yn methu symud ymlaen i gyrsiau cyfrwng Cymraeg mewn colegau addysg bellach oherwydd bod prinder tiwtoriaid sy'n siarad Cymraeg.

Yn llawer o'r ysgolion, mae'r ffaith fod mwy o gyrsiau galwedigaethol ar lefel 1 a lefel 2 ar gael wedi helpu i wella cyrhaeddiad, presenoldeb ac ymddygiad. Mae'r dysgwyr yn gweld bod y cyrsiau yma'n fwy perthnasol i'w diddordebau, ac maen nhw'n gwerthfawrogi'r cymorth maen nhw'n ei gael. Ffactor pwysig arall yw bod y dysgwyr yn dweud bod cymryd rhan yn y cyrsiau yma'n eu hannog i wneud mwy o ymdrech yn gyffredinol.

Mae cynnydd wedi bod dros y tair blynedd diwethaf yng nghyfran y disgyblion sy'n ennill cymwysterau ar lefel 2 mewn cymwysterau galwedigaethol. Ond mae'r bwlch wedi tyfu rhwng y rheini sy'n cyrraedd trothwy lefel 2 a'r rheini sy'n cyrraedd trothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg. Mae mwy o ddisgyblion yn cyrraedd lefel 2, ond mae gormod o ddisgyblion o hyd yn methu ennill cymwysterau yn y pynciau allweddol, sef Saesneg neu Gymraeg a mathemateg.

Mae llawer o enghreifftiau o fwy o gydweithredu'n digwydd yn y cyfnod ôl-16, sef ysgolion a cholegau'n gweithio fel arfer i gynnig dilyniant i'r cyrsiau galwedigaethol. Er hynny, nid yw'r cynlluniau ar gyfer cydweithredu wedi'u datblygu'n llawn eto yn y mwyafrif o'r ardaloedd. Yn llawer o'r ardaloedd, mae'r darparwyr yn dal i aros am benderfyniadau ar gynlluniau trawsnewid yr ardal.

Mae'r mwyafrif o'r ysgolion a'r colegau'n cynllunio ac yn cyflwyno darpariaeth y craidd dysgu'n effeithiol. Mae hyn yn digwydd yn arbennig lle mae'r dysgwyr yn cymryd rhan yn y cymhwyster Bagloriaeth Cymru. Mae nifer y darparwyr sy'n cynnig Bagloriaeth Cymru yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y cyfnod ôl-16, yn cynyddu. Mae Bagloriaeth Cymru'n gyfrwng da i fodloni gofynion y craidd dysgu.

[8] http://www.estyn.gov.uk /download/publication/2129.4/wider-choice-and-the-learning-core/

## Mynd i’r afael â thlodi ymhlith plant ac anfantais mewn ysgolion[9]

Mae cysylltiad ystadegol cryf rhwng tlodi a chanlyniadau addysgol isel. Yn gyffredinol, mae disgyblion o deuluoedd tlotach yn fwy tebygol o lawer o gael canlyniadau is na disgyblion eraill.

Er hynny, mae rhai ysgolion yn llwyddo’n well i helpu dysgwyr dan anfantais i wneud yn dda, er bod yr ysgol yn wynebu amgylchiadau heriol. Mae’r ysgolion yma’n llwyddiannus am fod ganddyn nhw’r un math o bethau â phob ysgol lwyddiannus, er enghraifft, arweinyddiaeth ac addysgu o safon. Maen nhw hefyd yn rhoi llawer o bwyslais ar:

- gynnig cyfleoedd i’r disgyblion wneud dewis helaeth o weithgareddau’r tu allan i’r ysgol, gan gynnwys cael profiadau ac ennill medrau a chymwysterau newydd;
- datblygu medrau cymdeithasol ac emosiynol y disgyblion;
- gweithio’n dda gyda gwasanaethau eraill i fynd i’r afael ag anfantais;
- hyrwyddo disgwyliadau uchel o ran safonau, ymddygiad y disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth; a
- gweithio’n agos gyda rhieni a’r gymuned ehangach i atgyfnerthu disgwyliadau.

Mae’r ysgolion cynradd sy’n gwneud yn dda mewn amgylchiadau heriol hefyd yn cynnig rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol dda. Maen nhw’n gwrando ar eu disgyblion i wneud yn siŵr eu bod yn gallu rhoi barn am eu dulliau dysgu a’r hyn maen nhw’n ei ddysgu. Maen nhw hefyd yn gwneud yn siŵr bod y disgyblion yn cael cychwyn cyflym pan fyddan nhw’n mynd i mewn i’r ysgol, drwy asesu ac ymyrryd yn gynnar.

Mae ysgolion uwchradd llwyddiannus yn rhoi pwyslais cadarn ar gynhwysiant cymdeithasol. Maen nhw’n canolbwyntio ar ddiwallu anghenion pob disgybl ac yn anelu at gyrraedd safonau academaidd uchel. Maen nhw’n trefnu’r cwricwlwm i ddiwallu anghenion y disgyblion, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4. Mae’r ysgolion yma’n gwerthfawrogi addysg alwedigaethol. Maen nhw’n gweithio’n dda gydag ysgolion eraill, colegau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith i gyflwyno darpariaeth yng nghyfnod allweddol 4 ac mewn dysgu ôl-16.

Mae disgyblion dan anfantais yn gwneud yn gymharol dda yn ardaloedd ychydig o’r awdurdodau lleol. Ond mae canlyniadau a chyfraddau gwella’r dysgwyr yn y gwahanol awdurdodau lleol yn amrywio gormod. Mae’r awdurdodau gorau’n cynnig arweinyddiaeth gadarn drwy:

- fynd ati’n weithredol i annog disgyblion dan anfantais i gyflawni safonau uchel;
- datblygu ffyrdd arloesol o fynd i’r afael ag anfantais;
- dadansoddi pa mor dda mae disgyblion unigol dan anfantais yn cyflawni; a
- herio ysgolion i wella canlyniadau eu disgyblion dan anfantais.

[9] http://www.estyn.gov.uk/download/publication/1801.8/tackling-child-poverty-and-disadvantage/

## Sicrhau bod pob dysgwr yn gwireddu ei botensial – arfarniad o strategaethau awdurdodau lleol[10]

Arfarnodd Estyn effaith strategaethau awdurdodau lleol yn y gwaith o gynorthwyo ysgolion a darparwyr eraill i helpu dysgwyr i wneud cynnydd da ac i wireddu eu potensial yn llawn.

Mae'r awdurdodau gorau'n defnyddio adnoddau ac amser yn dda i wella gallu pob ysgol i ddiwallu anghenion yr holl ddysgwyr. Er hynny, nid yw'r gwahanol awdurdodau lleol yn mynd ati'n ddigon cyson i rannu eu harfer dda â'u hysgolion a'u hadrannau eu hunain, ac ag awdurdodau lleol eraill.

Mae'r awdurdodau gorau'n dewis eu mentrau gwella ysgolion yn ofalus. Dim ond y rhai sydd eisoes wedi dangos yn glir eu bod yn gallu gwella canlyniadau dysgwyr y maen nhw'n eu dewis. Mae hyn yn helpu'r ysgolion i allu adnabod yn haws sut mae cael gafael ar yr adnoddau, yr hyfforddiant a'r cymorth iawn. Mae rhai awdurdodau lleol yn rhannu gwasanaethau â grwpiau rhanbarthol er mwyn gwneud y gorau o'u gallu i wella canlyniadau'r dysgwyr.

Mae pob awdurdod lleol yn hyrwyddo partneriaethau rhwng ysgolion, gwasanaethau gwella ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol plant ac asiantaethau statudol eraill a rhai o'r sector gwirfoddol. Mae'r awdurdodau gorau'n gwneud yn siŵr bod gweithio mewn partneriaethau'n arwain at fuddion i bobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio o fyd addysg. Er hynny, nid yw'r math yma o weithio ar y cyd yn ddigon cadarn ar hyn o bryd i gynorthwyo pob disgybl yn effeithiol. Hefyd, nid yw'r math yma o weithio yn cael ei roi ar waith yn ddigon cyson ar hyd a lled Cymru.

Nid yw llawer o awdurdodau lleol ac ysgolion yn defnyddio data'n ddigon da i adnabod y grwpiau o ddysgwyr sy'n tanberfformio ac sydd angen cymorth ychwanegol. Nid ydyn nhw'n gwirio'n ddigon gofalus y cynnydd mae dysgwyr sy'n cael cymorth ychwanegol yn ei wneud. Yn aml, maen nhw'n gwirio cynnydd yn anffurfiol ac nid ydyn nhw'n gwneud digon o ddefnydd o ddulliau ffurfiol o fesur deilliannau. Mae'n anodd felly i awdurdodau lleol arfarnu manteision llawer o fentrau.

[10] http://estyn.gov.uk//download/publication/1092/ensuring-all-learners-achieve-their-potential/

## Rheolwyr busnes ysgolion – canllaw arfer orau[11]

Mae'r arolwg yma'n adolygu rôl ac effeithiolrwydd rheolwyr buses ysgolion yng Nghymru.  Mae'n disgrifio arfer orau ac mae'n cynnwys astudiaethau achos.

Mae gan reolwyr busnes yr ysgolion rôl bwysig i'w chwarae yn y gwaith o helpu ysgolion i fod yn effeithlon.  Maen nhw'n aelodau pwysig o dimau rheoli'r ysgolion.  Maen nhw'n darparu:

- cyngor ariannol;
- cymorth i'r tîm arwain a'r corff llywodraethol; a
- chyfrifiadau a dadansoddiadau o'r gyllideb.

Mae rôl rheolwr busnes yr ysgol wedi newid yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf.  Yn y mwyafrif o ysgolion, mae rôl y rheolwr busnes yn ehangach nawr.  Nid yw erbyn hyn yn fater syml o oruchwylio'r cyllid neu wneud rhagamcan o lefel y gwariant.  Yn aml, mae ei rôl yn cynnwys cyfrifoldebau rheoli ychwanegol, fel:

- gweithredu fel rheolwr llinell staff;
- rheoli'r safle;
- rheoli prosiectau;
- marchnata;
- personél a'r gyflogres; a
- materion iechyd a diogelwch.

Drwy ymgymryd â'r rolau yma, mae rheolwyr busnes yn galluogi penaethiaid i dreulio mwy o amser yn canolbwyntio ar faterion addysgol, fel y cwricwlwm ac addysgu a dysgu.

Mae cymwysterau'r rheolwyr busnes yn amrywio.  Dim ond rhai ohonyn nhw sydd â chymwysterau'n ymwneud â'u safle proffesiynol yn yr ysgolion.  Er bod cyfleoedd ar gael i reolwyr busnes wella'u medrau angenrheidiol yn eu swydd, nid yw llawer ohonyn nhw'n gwneud yr hyfforddiant sy'n arwain at gymwysterau perthnasol.

[11] http://www.estyn.gov.uk/download/publication/1692.6/school-business-managers-good-practise-guide/

## Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP)[12]

Mae ein hadroddiad arolwg yn nodi nifer o ffactorau sydd wedi rhwystro llwyddiant y cymhwyster CPCP, gan gynnwys diffyg cyfleoedd gyrfa i athrawon sydd wedi cwblhau'r cymhwyster yn llwyddiannus i ddefnyddio'r cymhwyster hwnnw bob dydd.

Fe ganfuon ni hefyd nad oes unrhyw fwriad gan lawer o ymgeiswyr sy'n gwneud cais am y rhaglen CPCP i fynd yn benaethiaid. Yn syml, maen nhw'n gwneud cais am y rhaglen am nad oes unrhyw gymhwyster neu raglen hyfforddi ar lefel is na'r CPCP i reolwyr canol. Ar hyn o bryd mae nifer yr athrawon sydd wedi ennill y cymhwyster yn uwch na'r galw presennol am benaethiaid.

Nid yw awdurdodau lleol yn monitro cynnydd yr ymgeiswyr yn ddigon da. Nid ydyn nhw'n gweithio'n ddigon agos gyda chyrff llywodraethol yr ysgolion i gynllunio ar gyfer secondiadau i'r rhai sydd wedi ennill y cymhwyster CPCP. Nid yw'r rhaglen hyfforddi wedi'i diwygio i adlewyrchu materion diweddar yn yr ysgolion, ac mae diffyg amser hyfforddi'n ei chyfyngu. Yn olaf, nid oes meini prawf llwyddo wedi'u diffinio'n glir ar gyfer penodi tiwtoriaid, siaradwyr gwadd a phenaethiaid i'r rhaglen, ac nid yw'r Ganolfan CPCP yn cynnig adborth ysgrifenedig ar eu datblygiad i bob un sydd wedi graddio ar ddiwedd eu cwrs.

[12] http://estyn.gov.uk//download/publication/1419.6/impact-of-npqh/

## Sut mae athrawon yn arfarnu effaith prosiectau datblygiad proffesiynol parhaus CyngACC[13]

Mae'r mwyafrif o athrawon yn cynllunio'u prosiectau datblygiad proffesiynol yn dda. Er hynny, nid ydyn nhw'n cynllunio'n ddigon clir yn aml sut byddan nhw'n mynd ati i fesur effaith eu prosiectau ar gyflawniad disgyblion, ansawdd yr addysgu a'r dysgu, nac ar ddatblygiad ehangach yr ysgol. Nid yw llawer o athrawon yn monitro'u prosiect yn ddigon da.

Fel arfer mae athrawon yn casglu dewis amrywiol o dystiolaeth o gynnydd disgyblion pan fydd eu prosiect yn mynd ati i wella gwybodaeth a gallu'r disgyblion i ddeall y pwnc. Mae'r dystiolaeth y mae athrawon yn ei chasglu pan fydd cysylltiad rhwng y deilliannau sydd wed'u bwriadu â chymhelliant a brwdfrydedd disgyblion yn llai amrywiol a llai cadarn.

Mae'r mwyafrif o athrawon yn cysylltu'u prosiectau ag amcanion datblygu'r ysgol. Fel hyn, mae'r prosiectau'n cyfrannu'n gydlynus at y broses o wella perfformiad yr ysgol. Mae prosiectau'r mwyafrif o athrawon yn effeithio'n gadarnhaol drwy wella cyflawniad y disgyblion neu gyfrannu at ddatblygiad ehangach yr ysgol. Mae effaith prosiectau sydd wedi'u cynllunio i godi hyder a gwella cymhelliant y disgyblion yn llai clir yn gyffredinol.

Mae prosiectau athrawon yn effeithio'n bennaf ar ddisgyblion ac ysgolion pan fydd penaethiaid ac uwch-aelodau staff yn rhoi gwerth uchel ar ddatblygiad proffesiynol athrawon ac yn ei gydnabod fel ffordd o wella perfformiad y disgyblion ac effeithiolrwydd yr ysgol.

Mae'r athrawon sy'n hyderus wrth ddefnyddio technegau arfarnu'n dysgu o brosiectau sy'n mynd o chwith neu pan na fydd deilliannau'n cyfateb i'r bwriadau. Pan mae hyn yn digwydd, maen nhw'n dadansoddi'r sefyllfa ac yn mynd ati wedyn i gwblhau'r prosiect. Nid yw'r athrawon sy'n llai hyderus wrth arfarnu'n manteisio'n aml ar y cyfle i fyfyrio ar y prosiect neu i gwblhau'r prosiect pan fydd pethau'n mynd o chwith.

[13] http://estyn.gov.uk/download/publication/1365/how-teachers-evaluate-the-impact-of-gtcw-funded-trainin/

## Colegau addysg bellach ac ennyn diddordeb cyflogwyr[14]

Mae llawer o golegau addysg bellach yng Nghymru'n gweithio'n dda gyda chyflogwyr. Maen nhw'n arbennig o dda yn:

- rheoli partneriaethau strategol gyda chyflogwyr mawr;
- ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i fentrau hyfforddi newydd ac yn gweithio gyda chyflogwyr i'w cyflawni;
- darparu dysgu yn y gwaith o ansawdd uchel; ac yn
- cyflwyno hyfforddiant medrau sylfaenol i gyflogwyr mawr mewn ffyrdd sy'n diwallu anghenion y cyflogwyr yn ogystal ag anghenion y cyflogeion.

Mae ychydig o golegau'n creu cysylltiadau da iawn â chyflogwyr, ac mae ganddyn nhw wasanaeth pwrpasol ar gyfer ennyn diddordeb cyflogwyr. Mae'r colegau yma'n rhoi pwyslais cadarn ar ddiwallu anghenion hyfforddi a datblygu'r cyflogwyr. Mae eu rheolwyr yn deall anghenion hyfforddi cyflogwyr lleol yn dda.

Er hynny, nid yw colegau'n gwneud cystal o ran:

- gwneud yn siwˆr bod y staff sy'n addysgu pynciau galwedigaethol yn cael gwybodaeth ddiweddar am fyd diwydiant;
- gwirio gyda chyflogwyr sut mae gwella'u gwasanaethau;
- gwneud yn siwˆr bod cyflogwyr yn gallu cysylltu'n hawdd â'r staff sy'n gyfrifol am weithio gyda chyflogwyr;
- hyrwyddo'u gwasanaethau i gyflogwyr drwy'u gwefannau;
- cyflwyno gwasanaethau i gyflogwyr trwy gydol y flwyddyn; a
- gwneud yn siwˆr bod yr holl ddysgwyr sydd ar gyrsiau galwedigaethol yn cael profiad uniongyrchol priodol o fywyd gweithio, a'u bod nhw'n gallu datblygu medrau a fyddai'n eu helpu i gael swyddi.

[14] http://www.estyn.gov.uk/download/publication/1037.4/employer-engagement-and-support-for-industry-in-fe/

## Ansawdd adeiladau newydd mewn colegau addysg bellach, a'u heffaith ar ddysgwyr[15]

Er 2004, mae colegau addysg bellach a Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gweithio gyda'i gilydd yn dda i wella adeiladau a chyfleusterau. Maen nhw wedi gwneud defnydd da o gyllid i adeiladu adeiladau a chyfleusterau newydd. Rhwng 2006 a 2009, gwariodd y colegau bron i £74m ar adeiladau newydd. Darparodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ychydig dros hanner y cyllid hwn yn uniongyrchol.

Yn y colegau y gwnaethon ni ymweld â nhw, mae adeiladau a chyfleusterau newydd wedi arwain at welliant yng nghanlyniadau a phresenoldeb y dysgwyr, ac wedi lleihau gostyngiad yn nifer y dysgwyr newydd sy'n cofrestru ar gyfer cyrsiau. Mae'r gwelliant cyffredin yng nghanlyniadau'r dysgwyr yn y meysydd dysgu sydd wedi cael adeiladau a chyfleusterau newydd yn well na'r gwelliant yn y coleg yn gyffredinol. Mae mwy o welliant i'w weld ar gyfartaledd yng nghanlyniadau'r dysgwyr yn y colegau sydd wedi cael adeiladau a chyfleusterau newydd, ac mae'r gwelliant yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer holl golegau Cymru.

Mae ymateb bron pob un o'r dysgwyr i'r adeiladau newydd yn gadarnhaol iawn. Mae'r gofod a'r cyfleusterau gwell yn hannog i wneud gwell cynnydd yn eu gwaith. Mae pob un o'r dysgwyr a'r athrawon yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi fwy a bod ganddynt fwy o hunangymhelliant yn yr adeiladau newydd.

Yn aml, mae adeiladau newydd yn gwella'r cysylltiadau â dewis helaeth o grwpiau lleol. Mae hyn yn helpu colegau i weithio'n well gydag ysgolion ac mae'n helpu'r disgyblion i symud ymlaen at gyrsiau galwedigaethol yn y colegau. Mae adeiladau a chyfleusterau newydd yn aml yn gwella'r berthynas rhwng colegau a chyflogwyr. Maen nhw'n helpu colegau i gynyddu nifer y cyflogwyr y maen nhw'n gweithio gyda nhw, ac yn codi lefel y nawdd maen nhw'n ei gael.

[15] http://www.estyn.gov.uk/download/publication/1965.6/the-quality-of-new-build-in-fe/

## Beth sy'n gwneud darparwr hyfforddiant da?[16]

Yn ystod y cylch arolygu presennol (2004-2010), mae arolygiadau o ddarparwyr dysgu yn y gwaith wedi canfod fod safonau'n anghyson ar draws y sector. Yn arbennig, mae gormod o ddarparwyr yn cyflawni graddau boddhaol yn unig yn eu gallu i hunanasesu a chynllunio ar gyfer gwella. Fe weithiodd Estyn gyda Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru ac APADGOS i gyhoeddi llawlyfr er mwyn rhannu'r arfer dda sydd i'w gweld mewn arolygiadau o ddysgu yn y gwaith.

Mae'r llawlyfr yn tynnu sylw at arfer dda a'r ffactorau sy'n cyfrannu at wella safonau dysgu yn y gwaith yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- recriwtio a dewis hyfforddeion yn dda;
- cynnig cyfnod sefydlu o safon i'r dysgwyr;
- asesiad cychwynnol effeithiol i adnabod agweddau, galluoedd a phrofiad yr hyfforddeion; a
- defnyddio cynlluniau dysgu unigol yn dda.

Mae addysgu a dysgu da'n bwysig yn y gwaith o wella cyflawniadau dysgwyr. Mae system gadarn gan ddarparwyr da ar gyfer monitro a gwella ansawdd yr addysgu, ac ar gyfer arsylwi staff yn gweithio gyda dysgwyr.

Mae darparwyr da'n gofalu bod athrawon a hyfforddwyr yn rhoi adborth clir i ddysgwyr am eu cynnydd er mwyn eu helpu i ddeall pa mor dda maen nhw'n gwneud a'r hyn sydd angen ei wneud i wella. Y ffordd orau o gyflawni hyn yw drwy gynnal adolygiadau rheolaidd o gynnydd, a thrwy wneud yn siŵr bod dysgwyr yn cael eu cynnwys yn llawn yn eu hasesiadau.

Mae'r llawlyfr yn nodi arfer dda hefyd ar gyfer y tair agwedd allweddol arall sy'n gwella ansawdd yn safonau dysgu yn y gwaith. Y tair agwedd yw:

- hunanasesu trylwyr sy'n cynnwys pob rhanddeiliaid, ac sy'n cysylltu'n glir â gweithgareddau gwella ansawdd;
- partneriaethau llwyddiannus sy'n gwella ac yn cynyddu cyfleoedd i ddysgwyr; ac
- arweiniad, polisïau a gweithdrefnau clir ar gyfer hyrwyddo dwyieithrwydd a diwylliant Cymru.

[16] http://www.estyn.gov.uk/download/publication/2074.8/what-makes-a-good-training-provider/

## Ansawdd a pherthnasedd hyfforddiant staff i gyflwyno medrau sylfaenol a Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill[17]

Mae tystiolaeth o arolygiadau yn 2008 a 2009 yn dangos safon uwch o addysgu a dysgu mewn dosbarthiadau ar gyfer Addysg Sylfaenol i Oedolion (ASO) a Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (SSIE), lle mae gan athrawon gymwysterau perthnasol a phrofiad o'r sector.

Mae athrawon a chyflogwyr yn pwysleisio'r angen am weithlu cymwys. Yng Nghymru, er hynny, nid oes fframwaith cymwysterau sy'n cael ei gydnabod yn genedlaethol ar gyfer addysgu, cyflwyno nac asesu ASO ac SSIE, ac ar gyfer cynorthwyo'r dysgwyr. Nid oes unrhyw ganllawiau ar waith sy'n nodi'r cymwysterau mae athrawon eu hangen i fod yn gymwys. Nid oes diffiniad clir o'r gwahanol rolau addysgu, cyflwyno, asesu a chynorthwyo. O ganlyniad, mae llawer o athrawon ASO ac SSIE yn ennill cymwysterau sy'n anaddas i'r swydd maen nhw'n ei gwneud.

Mae grantiau Sgiliau Sylfaenol Cymru'n gwneud llawer i wella hyfforddiant llawer o ymarferwyr. Ond nid yw llawer o ddarparwyr y cyrsiau'n cynllunio cyrsiau'n ddigon pell o flaen llaw. Nid yw mwyafrif o'r staff yn gallu cael gwybodaeth am gyrsiau'n hawdd, ac nid ydyn nhw'n gallu gwneud y defnydd gorau o'r cyfleoedd sydd ar gael. Mewn ychydig o achosion, nid yw'r cyrsiau mae colegau addysg bellach yn eu rhedeg yn diwallu anghenion staff y ddarpariaeth yn y gwaith yn ddigon da.

Yn yr achosion gorau, mae darparwyr yn gweithio'n dda mewn partneriaethau i gyflwyno hyfforddiant a datblygiad staff. Maen nhw'n cyflogi hyfforddwyr a siaradwyr cymwys iawn, ac yn cyflwyno cyrsiau i fwy nag un sefydliad neu ddarparwr.

[17] http://www.estyn.gov.uk/download/publication/1911/the-quality-and-relevance-of-training-for-staff-in-abe/

## Addysg a hyfforddiant mewn gwaith ieuenctid a chymunedol[18]

Fe gynhaliodd Estyn un arolwg yn 2008-2009 ac un arall yn 2009-2010 i arfarnu hyfforddiant gweithwyr cymorth ieuenctid yng Nghymru.

Mae dewis helaeth o gyfleoedd da ar gael i bobl hyfforddi ar bob lefel o'r cymhwyster gweithiwr ieuenctid ar draws Cymru. Ond nid yw'r ffordd y mae hyfforddeion yn symud ymlaen o'r cyfnod sefydlu i gymhwyster proffesiynol yn ddigon clir. Mae cynnwys yr hyfforddiant yn ymwneud yn gynhwysfawr â'r medrau a'r wybodaeth y mae gweithwyr ieuenctid a gweithwyr cymunedol eu hangen. Er hynny, nid yw cynlluniau cwrs yn gofalu'n ddigon da bod hyfforddeion yn gwneud y cysylltiadau rhwng gwaith theori a'r medrau ymarferol sy'n angenrheidiol yn eu gwaith.

Er bod bron pob un o wasanaethau ieuenctid yr awdurdodau lleol yn sicrhau bod eu staff yn dilyn cyrsiau'r cymhwyster i weithwyr cymorth ieuenctid, nid yw rhai ohonyn nhw'n darparu cyrsiau sydd wedi'u cymeradwyo'n genedlaethol i'w staff. O edrych ar yr holl gyrsiau, nid oes digon o gyfleoedd i hyfforddeion astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae holl ddarparwyr y cyrsiau yma'n rhoi cymorth dysgu cynhwysfawr o ansawdd da i'r hyfforddeion. Er hynny, mae'r cymorth ariannol a'r defnydd o amser gweithio i helpu'r gweithwyr i ddilyn hyfforddiant yn y cymhwyster yn amrywio'n fawr ar draws Cymru.

Mae strategaeth gwasanaeth ieuenctid cenedlaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru'n sylfaen dda iawn i sefydliadau hyfforddi weithio gyda'i gilydd i wella'r ddarpariaeth. Ond nid yw'r sefydliadau yma wedi mynd ati'n effeithiol i hyrwyddo gweithio ar y cyd. Mae pob un o wasanaethau ieuenctid yr awdurdodau lleol wedi gwella'r ffordd maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd mewn grwpiau rhanbarthol, ond mae ffordd bell ganddyn nhw i fynd eto i ddatblygu cynlluniau gweithlu effeithiol yn y rhanbarthau. Ar ben hynny, nid yw rheolwyr y gwasanaethau ieuenctid yn gwneud fawr ddim cynllunio ac arfarnu systematig ar lefel awdurdod lleol nac ar lefel ranbarthol. Oherwydd hynny, nid ydyn nhw'n mesur yn ddigon da effeithiau'r hyfforddiant yn y cymhwyster ar gwricwlwm y gwaith ieuenctid neu ar wella deilliannau pobl ifanc.

Nid oes gwaith effeithiol yn cael ei wneud i sicrhau ansawdd lleoliadau gwaith. Nid yw rheolwyr cyrsiau a darparwyr lleoliadau yn y gwaith yn rhoi digon o sylw i'r agwedd yma ar y cwrs i sicrhau safon arferion gwaith yr hyfforddeion. Nid yw gwasanaethau ieuenctid yn arfarnu'r buddion sy'n dod yn sgil darparu lleoliadau gwaith i hyfforddeion gwaith ieuenctid. Oherwydd hynny, nid ydyn nhw'n gwybod am gostau lleoliadau gwaith nac am effaith darparu'r lleoliadau yma ar eu darpariaeth. Nid yw darparwyr yn cynllunio nac yn cyflwyno hyfforddiant yn ddigon da ar gyfer goruchwylwyr lleoliadau gwaith i wneud yn siŵr bod yr holl oruchwylwyr yn gwybod yn glir beth maen nhw'n ei wneud, a bod y medrau ganddyn nhw i wneud cyfraniad effeithiol at ddysgu myfyriwr.

[18] http://estyn.gov.uk//download/publication/1747.2/survey-of-professional-training-qualifications-for-yout/
http://www.estyn.gov.uk/download/publication/1310.4/how-good-is-the-training-of-youth-support-workers-in-wa/